Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Hen Felin

Cyflwynodd Ysgol Hen Felin gais i'n cronfa ysgolion i wella'i darpariaeth chwarae awyr agored. Nod yr ysgol oedd darparu gweithgareddau ystyrlon ar yr iard chwarae drwy hyfforddi staff a Llysgenhadon Ifainc a phrynu offer newydd. Roedden nhw am ddatblygu ardal yr iard chwarae anghenion cymhleth, a fyddai'n caniatáu i blant o bob gallu a cham datblygu chwarae yn yr un ardal. Derbyniodd yr ysgol gyllid gwerth dros £700 ac aethon nhw ati i ddechrau'r prosiect.

Yn ystod diwrnod HMS, fe wnaethon ni roi hyfforddiant i staff ac aethon ni yn ôl i'r ysgol unwaith yn rhagor i roi hyfforddiant Arweinydd Chwarae i'w Llysgenhadon Ifainc. Cafodd ystod eang o offer newydd eu prynu, gan gynnwys offer chwarae arbenigol cynhwysol a matiau 'Happy Feet' ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Dechreuodd yr ysgol gynnal clybiau chwaraeon amrywiol yn ystod amser egwyl ar gyfer y disgyblion hŷn. Mae trefniadau trafnidiaeth yn golygu ei bod hi'n anodd iddyn nhw fynychu clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, felly mae cael cyfleoedd o ansawdd uchel yn ystod amser egwyl yn bwysig iawn. O ganlyniad i hyn, mae modd iddyn nhw barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol o ansawdd uchel. Ymwelodd y Llysgenhadon Ifainc â'r iardiau CA2 bob wythnos a chefnogi'r plant iau i ddysgu a gwella eu sgiliau chwarae. Fe wnaeth y sesiynau yma hefyd helpu ein Llysgenhadon Ifainc i gwblhau'r elfen wirfoddol o'u hyfforddiant Gwobr Dug Caeredin.

Mae'r iard bellach yn lle mae modd i blant a phobl ifainc fwynhau treulio eu hamser, bod yn heini, rhyngweithio â'r amgylchoedd naturiol, profi newid, cymryd risgiau, teimlo'n ddiogel, ac wrth gwrs, chwarae - ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill. Dyma amgylchedd cefnogol a chynhwysol, sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys.





Cafodd **£719** o gyllid ei ddyrannu i'r cynllun

Cafodd **6** o Lysgenhadon Ifainc eu hyfforddi

Cafodd **50** o staff eu hyfforddi

**113** o bobl ifainc wedi mwynhau gweithgareddau ar yr iard

RHONDDA CYNON TAF